Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talgarreg
# Neuadd Goffa
# Talgarreg
# Llandysul
# Ceredigion
# SA44 4ET

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Talgarreg, sy'n cwrdd yn neuadd pentref Talgarreg, yn awdurdod lleol Ceredigion.  Mae'r lleoliad yn agor rhwng 12.30 a 15.00 o ddydd Llun i ddydd Iau yn wythnosol.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant rhwng dwy a phedair oed ac mae wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 15 plentyn.  Chwe phlentyn sydd wedi cofrestru i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar wedi'i hariannu gan yr awdurdod lleol.  Mae mwyafrif y plant presennol ond wedi mynychu'r lleoliad yn gyson ers ychydig dros dymor.

Mae pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig a thua hanner ohonynt sy'n dod o aelwyd sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith.  Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn cyflogi tair o ymarferwyr amser llawn, yn cynnwys yr arweinydd a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Medi 2011.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mawrth 2017 a chan Estyn ym mis Ionawr 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn rhagorol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y plant yn gwneud cynnydd arbennig o dda wrth ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu
- mwyafrif y plant sy'n cychwyn heb fedru siarad Cymraeg yn gwneud cynnydd arbennig o dda ac yn datblygu'r iaith yn fuan
- bron pob un plentyn yn hapus, yn ymgartrefu'n syth ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau wrth gyrraedd sesiynau
- bron pob plentyn yn ymgymryd â'u gweithgareddau'n frwdfrydig
- bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau'n hyderus wrth benderfynu ble maen nhw am chwarae a beth maen nhw am ei wneud yn ystod y sesiynau
- ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu hynod o ysgogol i'r plant, sy'n dal eu sylw ac sydd o ddiddordeb iddynt
- cynlluniau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn effeithiol iawn
- ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant a dealltwriaeth ardderchog o egwyddorion y cyfnod sylfaen
- gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn hynod ddefnyddiol i alluogi'r ymarferwyr i fesur eu cynnydd o'u mannau cychwyn
- yr ystafell ddosbarth a'r amgylchedd allanol yn fannau diogel a hynod o ddeniadol i'r plant ac yn rhai sy'n hybu dysgu yn effeithiol iawn

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- yr arweinydd profiadol yn meddu ar weledigaeth gref sy'n seiliedig ar ddarparu addysg gynnar effeithiol a chyffrous i blant yr ardal
- arweinwyr yn canolbwyntio'n glir ar sicrhau bod y plant yn hapus, yn ddiogel, ac yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn ystod eu cyfnod yno
- yr arweinydd yn rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus iawn gyda'r ymarferwyr cynorthwyol, y rhieni, ac aelodau'r pwyllgor rheoli
- aelodau'r pwyllgor rheoli yn rhagweithiol, yn cyflawni eu rolau yn hynod effeithiol, ac yn dosbarthu cyfrifoldebau yn synhwyrol iawn ymhlith ei gilydd, gan sicrhau bod swyddogion newydd yn cael eu hanwytho'n briodol i'w galluogi i chwarae eu rôl yn effeithlon
- y gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol iawn, yn cynnwys barn y staff, aelodau'r pwyllgor rheoli, a'r rhieni, ac yn seiliedig ar arsylwi ac arfarnu ansawdd gwaith y lleoliad yn gyson mewn perthynas ag addysgu a dysgu
- partneriaethau hynod effeithiol yn bodoli gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant

## Argymhellion

A1 Darparu mwy o gyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu medrau datrys problemau

A2 Codi ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd ailgylchu a chynaliadwyedd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Tua hanner y plant sy'n cychwyn yn y lleoliad â medrau llythrennedd a rhifedd yn debyg i'r hyn neu'n uwch na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd arbennig o dda wrth ddatblygu'r medrau hyn ar draws y meysydd dysgu. Mae'r ychydig sy'n fwy abl yn gwneud cynnydd ardderchog, gan gyfathrebu'n glir mewn brawddegau a defnyddio geirfa naturiol yn aeddfed. Mae'r ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae mwyafrif y plant sy'n cychwyn heb fedru siarad Cymraeg yn gwneud cynnydd arbennig o dda ac yn datblygu'r iaith yn fuan. Mae bron pob un yn deall cyfarwyddiadau dyddiol yn glir, gan ddangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r iaith wrth ymateb i gwestiynau syml. Mae llawer yn defnyddio cymalau cyfarwydd yn ystod amser tocyn, mewn sesiynau grŵp mawr, a phan yn chwarae rôl, gyda'r mwy abl yn defnyddio ymadroddion yn gwbl naturiol fel 'tafod yr esgid' yn y siop esgidiau. Mae llawer yn sgwrsio'n frwdfrydig, ac yn esbonio sut y maent yn teimlo a pham yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar ei gilydd yn gwrtais, gan rannu eu profiadau a sgwrsio am y tywydd a'u gweithgareddau dyddiol. Mae llawer yn trin llyfrau yn gywir a chyda gofal, gan ddilyn trefn stori yn briodol. Mae'r mwyafrif yn adnabod eu henwau mewn print ac mae ychydig yn adnabod dyddiau'r wythnos, ac yn eu hadrodd mewn trefn. Mae'r mwyafrif yn defnyddio offer gwneud marciau yn annibynnol a chyda rheolaeth gynyddol, gyda thua hanner ohonynt yn ysgrifennu eu henwau yn lled annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd yn dda iawn. Mae llawer yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir, gydag ychydig o'r plant mwy abl yn gwneud hynny hyd at 20 wrth rifo nifer o wrthrychau ar fwrdd. Mae ychydig yn 'mesur' traed ac yn dod o hyd i esgidiau addas yn y siop esgidiau yn hyderus. Mae'r mwyafrif yn defnyddio iaith fathemategol fel mwy a llai yn gywir wrth drin ystod o offer chwarae. Pan gânt y cyfle, mae ychydig yn dechrau datrys problemau yn gadarn, er enghraifft wrth ddarganfod pa esgid sy'n ffitio pa blentyn yn y siop esgidiau.

Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus iawn. Mae bron pob un yn defnyddio'r til a'r ffôn yn y siop i bwrpas, ac yn recordio'i gilydd yn sgwrsio gan ddefnyddio pegiau siarad. Mae'r mwyafrif yn dechrau rheoli camau crwydryn electronig yn llwyddiannus a thynnu ffotograffau synhwyrol ar lechen gyfrifiadurol. Mae'r rhan fwyaf yn dilyn cyfarwyddiadau syml wrth ddefnyddio rhaglenni cyfrifiadurol ar sgrin.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu medrau corfforol ardderchog drwy gymryd rhan yn hynod hyderus mewn ystod o weithgareddau ymarferol, fel taflu a dal pêl, dilyn llwybr rhwystrau a rhedeg a cherdded yn araf yn y sesiwn chwarae yn y neuadd. Mae bron pob un yn defnyddio offer mawr fel y llithren yn yr ardal allanol, a thwnnel a bocs bach i ddringo arno yn hyderus iawn. Mae'r mwyafrif yn trin offer ysgrifennu a phaentio yn gadarn, ac mae'r mwyafrif yn cwblhau posau jig-so yn annibynnol.

**Lles: Rhagorol**

Wrth gyrraedd y lleoliad, mae bron pob un plentyn yn hapus, yn ymgartrefu’n syth ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau. Mae bron pob un yn canolbwyntio’n dda iawn ac yn gwrando’n ufudd ar gyflwyniadau. Mae’r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda iawn ac yn cydweithio’n effeithiol, gan ddilyn cyfarwyddiadau yn ddeallus a chydymffurfio’n ufudd â threfn arferol y sesiynau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hagwedd tuag at ddysgu a’u dyfalbarhad.

Mae bron pob plentyn yn ymgymryd â’u gweithgareddau’n frwdfrydig. Er enghraifft, mae unigolion yn cymryd eu tro i drafod eu hemosiynau, i dynnu gwrthrych allan o fag yn ystod sesiwn grŵp, ac i dacluso ar ddiwedd gweithgareddau. Mae hyn, yn ogystal â chwarae rôl ‘helpwr y dydd’ yn eu tro, yn datblygu eu medrau annibynnol yn effeithiol, ynghyd â’u gallu i gymryd cyfrifoldeb. Mae llawer yn siarad yn frwdfrydig am fwydydd sy’n iach iddynt wrth fwyta ffrwyth ac yfed llaeth neu ddŵr yn ystod amser tocyn. Mae bron pob un yn deall pwysigrwydd glanhau eu dannedd yn rheolaidd ac yn gwneud hyn yn effeithiol.

Mae bron bob un yn gwneud dewisiadau’n hyderus wrth benderfynu ble maen nhw am chwarae a beth maen nhw am ei wneud yn ystod y sesiynau ac yn ymateb yn gadarnhaol wrth gael eu cymell i wella.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau dysgu hynod ysgogol i’r plant, sy’n dal eu sylw ac sydd o ddiddordeb iddynt, fel gweithgareddau yn seiliedig ar dato, dail yr hydref ac anifeiliaid sy’n gaeafgysgu. Maent yn adnabod anghenion y plant yn hynod dda ac yn ymateb yn effeithiol iawn iddynt, gan adlewyrchu ethos ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Mae hyn yn annog y plant i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu o oed cynnar.

Mae’r ymarferwyr yn cynnwys syniadau’r plant yn hollol naturiol wrth gynllunio gweithgareddau iddynt. O ganlyniad, mae gan y plant ddiddordeb brwd yn eu tasgau. Mae’r cynlluniau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn effeithiol iawn. Mae datblygu medrau plant yn y Gymraeg yn digwydd yn hollol naturiol ac yn greiddiol i holl weithgareddau’r lleoliad. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ar draws y meysydd dysgu ac yn annog y plant i ddatblygu eu medrau iaith yn barhaus wrth ymroi’n gydwybodol i’w tasgau. Mae enghreifftiau effeithiol iawn yn cynnwys cyfleoedd iddynt ysgrifennu eu henwau wrth gyrraedd, dewis llyfrau sy’n ymwneud â’r thema, trafod maint eu cacennau yn y gegin fwd, a chyfateb esgid a maint traed yn y siop esgidiau. O ganlyniad, mae medrau llafar, darllen ac ysgrifennu cynnar y plant, ynghyd â’u medrau rhifedd, yn datblygu’n hynod gadarn o ystyried eu hoed. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y plant yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd diddorol i blant ddefnyddio ystod o offer fel y ffôn a’r til yn y siop wrth werthu esgidiau a llysiau, a’r llechen electronig i dynnu lluniau eu cyfoedion wrth eu gweithgareddau. Er hynny, nid yw ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd digon rheolaidd i alluogi plant i ddatblygu eu medrau datrys problemau yn annibynnol.

Mae’r ymarferwyr yn asesu medrau ieithyddol y plant yn rheolaidd ac yn addasu gweithgareddau’n briodol i fynd i’r afael ag unrhyw wendidau neu anghenion gwahanol y maent wedi eu hadnabod.

Mae cyfleoedd cyson i blant ddefnyddio offer mawr fel y llithren yn yr ardal allanol, a thwnnel a bocs bach i ddringo arno yn y neuadd. Mae’r cyfleoedd hyn yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus iawn. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen yn flynyddol, a defnyddio straeon traddodiadol yn ystod eu themâu.

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o fannau lleol fel tir yr ysgol gynradd leol i hel dail, ac yn gwahodd ymwelwyr fel y pregethwr cynorthwyol lleol i siarad â’r plant am bwysigrwydd y cynhaeaf a chyfnod y diolchgarwch. Mae’r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu’r plant yn hynod effeithiol, yn dod â’u dysgu yn fyw iddynt ac yn codi eu hymwybyddiaeth am bobl sy’n gweithio o fewn eu cymuned.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae’r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant, ynghyd â dealltwriaeth ardderchog o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio’n effeithiol iawn â’i gilydd i sicrhau bod pob un plentyn yn hapus a diogel ac yn gwneud cynnydd sy’n hynod dda. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol iawn mewn ffordd hynaws ond cadarnhaol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y plant yn ymddwyn yn dda, yn cyfranogi’n gydwybodol ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Mae’r ymarferwyr yn herio’r plant yn gyson trwy eu holi’n dreiddgar tra’u bod wrth eu tasgau ffocws a pharhaus. Maent yn eu hannog i siarad yn y Gymraeg o’r cychwyn cyntaf trwy fodelu’r iaith yn gelfydd iddynt. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd yn bwrpasol ym mhrofiadau a chwarae’r plant i’w hysgogi a’u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae cymhelliant y plant yn uchel a’u hawydd i wella’u gwaith yn gyson dda iawn o ystyried eu hoed.

Mae’r gweithdrefnau ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau plant yn hynod ddefnyddiol i alluogi’r ymarferwyr i fesur eu cynnydd o’u mannau cychwyn. Mae ymarferwyr yn asesu’r plant yn effeithiol, yn arbennig mewn iaith, ac yn cofnodi unrhyw gynnydd nodedig a wneir gan blant yn eu ffeiliau unigol. Maent yn defnyddio’u hasesiadau yn gyson i fwydo’r cynllunio ac i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y plant yn y grŵp cyfredol, sydd â’r mwyafrif ohonynt ond wedi mynychu’r lleoliad ers ychydig dros dymor.

Mae’r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant. Mae’r ddeialog reolaidd rhwng yr ymarferwyr a’r rhieni a gofalwyr wrth y drws yn atgyfnerthu hyn yn dda iawn. Ar ddiwedd cyfnod y plant yn y lleoliad, mae’r ymarferwyr yn trosglwyddo gwybodaeth gyflawn amdanynt i’r ysgol gynradd. Mae hyn yn hybu trosglwyddo esmwyth a llwyddiannus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ymarferwyr yn ofalgar iawn o'r plant ac yn hynod wyliadwrus pan fyddant yn cyrraedd a mynd adref ar ddiwedd y sesiwn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau hynod effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant ac mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo egwyddor pwysigrwydd ymarfer y corff, brwsio dannedd a bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn deall bod ffrwythau, llysiau ac ymarfer corff yn cyfrannu'n gadarnhaol at ffordd iach o fyw. Maent yn siarad yn aeddfed am fwydydd sy'n iach iddynt, ac yn arbennig am eu hoff ffrwythau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau hynod effeithiol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio sesiynau grŵp mawr fel amser stori i feithrin y gwerthoedd hyn gan annog y plant i drafod eu hemosiynau, i gymryd eu tro, i wrando'n astud ar gyfraniadau ei gilydd ac i fyfyrio ar eu hymddygiad. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un yn ystyried a pharchu teimladau ei gilydd yn aeddfed. Fodd bynnag, ychydig iawn o gyfleoedd sydd i blant ailgylchu deunyddiau fel papur, cerdyn, a photeli plastig, sy'n llesteirio'u dealltwriaeth o gynaliadwyedd. Mae ymarferwyr yn annog y plant i weddïo'n fyfyrgar ar wahanol adegau yn ystod y sesiynau sy'n hybu eu datblygiad ysbrydol yn briodol.

Mae ymarferwyr yn annog y plant i gymryd eu tro yn gwrtais wrth iddynt olchi eu dwylo, a derbyn ffrwyth a diod yn ystod amser tocyn. Maent yn rhoi cyfrifoldeb priodol i'r plant chwarae rôl 'helpwr y dydd' yn eu tro, gan ymgymryd â gweithgareddau penodol fel galw'r plant yn unigol wrth i'w rhieni gyrraedd ar ddiwedd y dydd gan ddefnyddio set radio symud a siarad. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn dderbyn cyfrifoldeb a datblygu eu medrau annibynnol.

Mae gan y lleoliad drefniadau llwyddiannus i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gweithredu'n effeithiol ar gyngor arbenigol, gan deilwra'r ddarpariaeth i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ychydig iawn o'r plant a sicrhau bod cyfleoedd i bob un gymryd rhan ym mhob gweithgaredd sy'n addas iddynt.

## Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae'r ystafell ddosbarth a'r amgylchedd allanol yn hynod ddeniadol i'r plant sy'n hybu dysgu yn effeithiol iawn. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pob un yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Mae'r ethos gweithgar a hamddenol sy'n bodoli yno yn adlewyrchu'r pwyslais cadarn y mae arweinwyr yn ei roi ar gydweithio ac ymroi i weithgareddau. Mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais parhaus ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth gan addysgu'r plant yn llwyddiannus am wahanol ddiwylliannau a gwyliau fel Diwali a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a'u cymharu â diwylliant eu hardal nhw.

Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau amrywiol o safon uchel i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus iawn yn yr holl feysydd dysgu y tu mewn ac yn yr ardal allanol. Defnyddir adnoddau'n hynod effeithiol i fodloni egwyddorion y cyfnod sylfaen ac anghenion penodol y plant. Fe'u defnyddir yn benodol mewn gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws ac amrywiol weithgareddau diddorol i gyfoethogi'r dysgu yn

hynod effeithiol. Mae'r adnoddau yn cael eu cadw ar lefel briodol i alluogi'r plant i'w cyrraedd a'u gosod heibio wedi iddynt orffen â nhw yn hollol annibynnol. Mae hyn yn hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol.

Mae'r dosbarth yn cael ei gynnal a'i gadw'n lân a diogel. Mae'r ardal allanol yn ddiogel ac yn cynnwys ardaloedd diddorol fel y gegin fwd, y cornel cerddoriaeth, siop lysiau ac ardaloedd penodol i farcio a chwarae rôl. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn hynod greadigol i annog annibyniaeth a chreadigedd y plant yn eu dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r arweinydd profiadol yn meddu ar weledigaeth gref sy'n seiliedig ar ddarparu addysg gynnar effeithiol a chyffrous i blant yr ardal. Mae'n canolbwyntio'n glir ar sicrhau bod y plant yn hapus, yn ddiogel, ac yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r arweinydd yn rhannu ei gweledigaeth yn llwyddiannus iawn gyda'r ymarferwyr eraill, y rhieni, ac aelodau'r pwyllgor rheoli. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel iawn ohoni hi ei hun a'i chydweithwyr ac mae'n sicrhau ei bod hi a'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am weithdrefnau dyddiol a chynnydd plant yn llwyddiannus iawn ymhlith ei gilydd. Mae rolau'r ymarferwyr ynghyd â'r llinellau atebolrwydd yn glir. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn deall yn union yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau bod y lleoliad yn gweithredu'n effeithiol iawn o ddydd i ddydd a bod y plant yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn rhagweithiol ac yn cyflawni eu rolau yn hynod effeithiol. Maent yn dosbarthu cyfrifoldebau yn effeithiol iawn ymhlith ei gilydd ac yn sicrhau bod swyddogion newydd yn cael eu hanwytho'n briodol i'w galluogi i chwarae eu rôl yn effeithlon. Mae'r swyddogion yn hynod gefnogol i waith y lleoliad ac yn sicrhau bod gan y staff a'r plant fynediad da iawn at adnoddau o safon uchel i'w galluogi i gydymffurfio ag egwyddorion y cyfnod sylfaen. Maent yn parchu'r staff ac yn cymryd cyfrifoldeb llawn am reoli eu perfformiad, gan fonitro'r ddarpariaeth yn gyson a sicrhau bod yr ymarferwyr yn derbyn yr hyfforddiant a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae pob un o'r ymarferwyr wedi manteisio ar hyfforddiant iaith a lleferydd i'w cynorthwyo i ddatblygu'r elfennau hyn yn llwyddiannus yn y lleoliad. Trwy ymweld yn gyson, maent yn adnabod y lleoliad yn ardderchog ac yn gwerthfawrogi'r ystod o weithgareddau diddorol y mae'r plant yn eu cyflawni yno.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol iawn, yn cynnwys y staff ac aelodau'r pwyllgor rheoli, ac yn seiliedig ar arsylwi ac arfarnu ansawdd gwaith y lleoliad yn gyson mewn perthynas ag addysgu a dysgu. Mae'r ymarferwyr yn trafod eu harferion yn rheolaidd ac yn canolbwyntio ar effaith eu gwaith ar gynnydd y plant. Mae hyn yn hybu cydweithio agored ac ymdeimlad clir o waith tîm a gwelliant parhaus. Mae aelodau'r pwyllgor ynghyd â swyddog cyswllt yr awdurdod lleol yn monitro gwaith yr ymarferwyr yn rheolaidd ac yn paratoi adroddiadau ysgrifenedig i nodi eu darganfyddiadau. Mae'r arweinydd hefyd yn cywain barn y rhieni am waith y

lleoliad. Mae hyn yn rhoi darlun gwrthrychol iddi am waith y lleoliad ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr adroddiad hunanarfarnu, sy'n ddogfen onest a defnyddiol sy'n crynhoi deilliannau'r gweithdrefnau hyn yn glir. Mae'r arweinydd yn cydnabod bod gan y lleoliad feysydd penodol i'w gwella, ac mae'n nodi enghreifftiau cadarn o sut mae'n cynllunio'n fanwl i addasu'r ddarpariaeth er mwyn mynd i'r afael ag anghenion gwahanol grwpiau o blant.

Mae cyswllt clir yn bodoli rhwng y meysydd i'w gwella a nodir yn yr adroddiad hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu. Mae'r cynllun datblygu yn nodi nifer synhwyrol o faterion sydd angen eu gwella. Mae'n nodi'r camau gweithredu, meini prawf llwyddiant clir yn seiliedig ar gynnydd plant, pwy sy'n gyfrifol, erbyn pryd, a chostau. Nodir sylwadau monitro yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn yn seiliedig ar ddatblygiad yn erbyn y materion hyn. Mae hyn yn arwain yn naturiol at welliant mewn darpariaeth, safonau a lles plant, yn arbennig wrth wella medrau llafar y plant, a'u hannibyniaeth wrth ddefnyddio'r ardal allanol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan y lleoliad berthynas hynod effeithiol gydag ystod o bartneriaid, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth a chynnydd y plant. Mae ganddo bolisi drws agored ac mae un o'r ymarferwyr bob amser yn cyfarch y rhieni wrth y drws ac yn barod i drafod materion perthnasol gyda nhw yn y man a'r lle, os yw'n briodol. Cynhelir nosweithiau agored a defnyddiol i rieni yn rheolaidd i'w galluogi i drafod datblygiad eu plentyn yn fwy ffurfiol, ynghyd ag unrhyw bryderon neu faterion maent am eu codi gyda'r staff. Cynhelir gweithgareddau cyson i godi arian, sy'n dibynnu'n llwyr ar gefnogaeth dda'r rhieni a'r gymuned gref. Er enghraifft, mae'r ffair Nadolig, y cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi ac Eisteddfod Bwlchyfadfa yn ddigwyddiadau sy'n rhoi cyfle i rieni ddod i adnabod ei gilydd a gwylio'u plant yn perfformio tra'n codi arian tuag at waith y lleoliad a'r gymuned gyfan. Mae'r arweinydd yn rhoi cyfle i rieni neu aelodau o deuluoedd y plant gyfrannu unrhyw arbenigedd penodol sydd ganddynt sy'n gysylltiedig â themâu penodol. Mae gan y lleoliad degan meddal o'r enw Doti sy'n cael mynd adref am benwythnos gyda phob plentyn yn ei dro, er mwyn i'r rhieni gofnodi gwahanol ddigwyddiadau y cymerodd ran ynddynt gyda'u plant yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r gweithgareddau hyn yn atgyfnerthu'r cyswllt gyda rhieni ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r themâu sy'n cael eu dilyn ar unrhyw adeg. Mae rhieni'n gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n agos iawn gyda swyddogion adran cyfeirio anghenion arbennig yr awdurdod lleol. Mae hyn yn eu galluogi i ddarparu cefnogaeth benodol a hynod effeithiol i'r rhieni yn ogystal â'r plant, lle bo'r angen. Mae hefyd yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r 'Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy' sy'n hybu agweddau iach tuag at faeth, iechyd y geg a gweithgarwch corfforol ymhlith y plant, er enghraifft. Trwy gydweithio â'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i drefnu hyfforddiant staff, mae ymarferwyr wedi datblygu eu hymwybyddiaeth am faterion pwysig fel awtistiaeth, egwyddorion y cyfnod sylfaen, iaith, rhifedd, cadw'n iach a ffitrwydd plant. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth, safonau, ymddygiad a lles y plant.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos gyda phwyllgor neuadd Talgarreg i sicrhau eu bod yn defnyddio rhannau o'r un gofod yn effeithlon ac i fodloni gofynion y ddau sefydliad fel ei gilydd. Mae cynrychiolydd o bwyllgor y lleoliad yn mynychu

cyfarfodydd pwyllgor y neuadd. Mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn rhan o unrhyw benderfyniadau a bod aelodau'r pwyllgor rheoli a'r staff yn derbyn manylion am unrhyw faterion perthnasol.

Gan fod mwyafrif helaeth o blant y lleoliad yn mynychu'r ysgol gynradd leol maes o law, cynhelir nifer o weithgareddau gwerthfawr ar y cyd er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'r lle. Er enghraifft, cynhelir cyngerdd Gŵyl Ddewi a diwrnod mabolgampau ar y cyd. Mae'r lleoliad yn cydweithio â'r ysgol yn effeithiol i sicrhau bod y plant sydd ar fin symud ymlaen yn mynychu sesiynau cyfarwyddo yn yr ysgol er mwyn hwyluso'r broses iddyn nhw pan ddaw'r amser.

Mae gan y lleoliad berthynas agos gyda'r gymuned yn gyffredinol, sy'n sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth gadarn eu bod yn perthyn i gymuned ehangach yn ogystal â chymuned y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r arweinydd a swyddogion y pwyllgor yn rheoli'r staff ac adnoddau eraill yn hynod effeithiol. Maent yn llwyddo i dderbyn grantiau niferus yn rheolaidd o wahanol ffynonellau i ariannu agweddau pwysig o waith y lleoliad. Er enghraifft, defnyddiwyd grant i ddatblygu'r ardal allanol yn ddiweddar, sydd wedi cyfoethogi'r gweithgareddau i'r plant. Cefnogir y lleoliad yn effeithiol iawn gan swyddogion cyswllt yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin i sicrhau ei fod yn rhedeg yn llwyddiannus ac yn cynnig addysg o safon uchel iawn i'r plant. Gwneir defnydd addas o grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar, a gedwir yn ganolog gan yr awdurdod lleol i hyfforddi ymarferwyr mewn meysydd synhwyrol fel datblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen a meysydd fel rhifedd a llythrennedd.

O ganlyniad i effaith gadarn y ddarpariaeth ar y safonau y mae plant yn eu cyflawni, mae'r lleoliad yn darparu gwerth rhagorol am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |